**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/KW/2777/20

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Awst 2020

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod o ddyddiad ei osod. Rwy'n atodi'r Memorandwm Esboniadol er gwybodaeth i chi.

Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019").

Mae'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr, a wneir o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1988, yn sail i'r system cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac yn ymgymryd â chyrsiau addysg uwch dynodedig.

Bydd y Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau 2019 i alluogi myfyrwyr newydd sy'n dysgu o bell nad ydynt yn gallu bod yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf eu blwyddyn academaidd gyntaf, oherwydd na allant deithio am unrhyw reswm sy'n gysylltiedig â phandemig y Coronafeirws, i barhau i fod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr. Mae'r offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

Fel y nodwyd, bydd y Rheoliadau fel y'u gwnaed yn dod i rym cyn i 21 diwrnod fynd heibio. Mae hyn oherwydd ei bod yn hwyr yn y flwyddyn. Mae angen i'r Rheoliadau fod mewn grym erbyn 1 Medi (diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd) i alluogi myfyrwyr sy'n dechrau ar eu cwrs ar y dyddiad hwnnw i barhau i fod yn gymwys i gael cymorth, gan na ellir gwneud newidiadau'n ôl-weithredol. Mae hyn yn sicrhau nad oes unrhyw fyfyrwyr dan anfantais oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi’i baratoi ac wedii osod gerbron y Swyddfa Gyflwyno, ar y cyd â’r Rheoliadau.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a’r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd